

# CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor uchod yn Neuadd Bentref Llanelltyd  
Nos Fawrth, Mawrth 13, 2018 am 7.30 o'r gloch.

## AGENDA

### Gweddi

#### 1. Ymddiheuriadau:

#### 2. Datgan diddordeb:

#### 3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Chwefror 13, 2018

#### 4. Materion yn codi o'r cofnodion Chwefror 13, 2018

Eitem 8.dd. Llythyr ateb (16/2/2018) yn rhoi gwybod mae gorchymyn etholiadol diweddaraf ar gyfer Gwynedd yn cynnwys yr enw Saesneg Brithdir and Llanfachreth/Ganllwyd/Llanelltyd a'r enw Cymraeg Brithdir a Llanfachreth/Y Ganllwyd/Llanelltud ar gyfer y ward etholiadol. Mae hyn hefyd yn wir ar gyfer Cymuned Llanelltyd, sydd â'r enw Saesneg 'Community of Llanelltyd' a'r enw Cymraeg 'Cymuned Llanelltud'. Felly, sillafiad cyfreithiol y gymuned ac, yn ei thro, y ward etholiadol, yw 'Llanelltyd' yn Saesneg a 'Llanelltud' yn y Gymraeg.

O ran cynigion drafft y Comisiwn, rydym wedi cynnig un enw ar gyfer pob ward etholiadol, yn seiliedig ar yr enwau Cymraeg presennol sydd ar gael. Felly, rydym wedi cynnig 'Brithdir, Llanfachreth, Y Ganllwyd a Llanelltud'.

Bydd y Comisiwn yn ystyried safbwyntiau'r Cyngor, ynghyd â'r cynrychiolaethau eraill a dderbynnir, wrth iddo baratoi ei Gynigion Terfynol.

Eitem 8.i. Rhoddwyd gwybod i Dŵr Cymru bod dŵr yn gollwng o 'manhole' wrth Toiledau Bontddu. 16/2/2018. Derbyniwyd galwad ffôn oddi wrth Dŵr Cymru yn rhoi gwybod maent am archwilio'r broblem.

Eitem 5.a. Anfonwyd llythyr (23/2/2018) i Uned Archwilio Mewnol, Cyngor Gwynedd i gadarnhau ein bod yn penodi nhw fel ein Harchwilydd Mewnol. Derbyniwyd y llythyr (23/2/2018) yn ôl wedi ei arwyddo gan Swyddog o'r Uned. Mae'n debyg bydd y ffi oddeutu £100.

Eitem 8.1. Llythyr (27/10/2018) oddi wrth Llywodraeth Cymru, trwy law Un Llais Cymru. Amgáu mae Adroddiad Draft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Chwefror 2018. Mae'r adroddiad yn cynnwys cynigion a fyddai'n dod i rym ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/2019. Mae'r adroddiad ar gael ar wefan <http://gov.wales/irpwsb/home/publication-reports/58592459/?skip=1&lang=cy> Adran 13 sy'n berthnasol i gynghorau tref a chymuned.

## **5. Materion Ariannol**

- a. Bil (15/02/2015) am £116.67 oddi wrth Dŵr Cymru at tâl gwasanaethu Toiledau Cyhoeddus Bontddu. Mae'n cael ei dalu drwy DD. Llynedd roedd y taliad yn £147.94.
- b. Llythyr (23/2/2018) oddi wrth HSBC yn rhoi gwybod bydd ein cyfrif yn newid o 'HSBC Bank plc' i 'HSBC UK bank plc' ar 1/07/2018).
- ch. Balans yn y banc ar 28 Chwefror, 2018: £8,510.62

## **6. Mynwent Llanelltyd**

- a. Derbyniwyd siec (23/2/2018) am £85.00 oddi wrth Mr Tony Hodgson at ail-osod beddfaen i'r diweddar Freda Smalley a Paul Leslery Smalley.
- b. Derbyniwyd siec (28/2/2018) am £85.00 oddi wrth I.B. Williams a'i Fab Cyf at ail-osod beddfaen ar y diweddar John Kenneth Williams.

## **7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

## **8. Gohebiaeth**

- a. Llythyr (15/2/2018) oddi wrth Cyngor ar Bopeth Gwynedd yn diolch am ein rhodd o £100.
- b. (Llythyr 20/2/2018) oddi wrth Gwyl Cerdd Dant Blaenau Ffestiniog a'r Fro 2018 yn diolch am ein rhodd..
- c. Llythyr (15/2/2018) oddi wrth Elusen Ambiwlans Cymru yn diolch am ein rhodd o £100.
- ch. Llythyr (21/2/2018) oddi wrth Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd yn diolch am ein rhodd o £50.
- d. Llythyr (22/2/2018) oddi wrth Neuadd Bentref Bontddu yn dolch am ein rhodd o £450.
- dd. Llythyr (27/2/2018) oddi wrth Neuadd Bentref Llanelltyd yn dolch am ein rhodd o £450.
- e. Rhoddwyd gwybod (27/2/2018) i Pryffyrdd mae angen llenwi biniau halen sydd ar y rhiw uwchben Pont Cwm Mynach ac wrth giosg Taicynhaef.
- f. Llythyr (28/2/2018) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith tyllu a gosod colofnau golau stryd yn cael ei wneud ar ffordd A496 yn Bontddu.
- ff. Llythyr (1/3/2018) oddi wrth Cylch Meithrin Dolgellau yn dolch am ein rhodd o £100.

## **9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins**

a. Anfonodd Cyngor Cymuned Brithdir a Llanfachreth lythyr (27/2/2018) i Priffyrdd, gyda chais i lenwi bin halen yn rhoi gwybod nid yw'r drefn i gael y Clerc i roi gwybod am yr angen i lenwi biniau yn gweithio.

Derbyniwyd llythyr ateb (1/3/2018) yn rhoi gwybod mai cais i lenwi biniau yn gorfod cael ei wneud gan y Cyngor Cymuned er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r cais a'r gost.

## **10. Materion Brys**

Yn gywir,  
H.M. Edwards, Clerc